***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 432 (Cy. 101)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) (Diwygio) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Mawrth 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Mawrth 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 4 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) (Diwygio) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2019.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992

**2.**—(1) Mae Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 3, ar y diwedd mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "Class X: | (1) a dwelling in Wales<br>(a) which is occupied by one or more care leavers; and |

(**1**) 1992 p. 14.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 1992/558; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1992/2941, 1993/150, 1994/539, 1995/619, 1997/74, 1997/656, 1998/291, 1999/536, 2000/1025 (Cy. 61), 2004/2921 (Cy. 260) a 2005/3302 (Cy. 256).

(b) where every resident is either a care leaver, a relevant person, or a severely mentally impaired person.

(2) For the purposes of paragraph (1)—

(a) "care leaver" means a person who is—

(i) aged 24 or under; and

(ii) a category 3 young person as defined by section 104 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**4**);

(b) "relevant person" has the meaning given by paragraph 2(a) of Class N; and

(c) "severely mentally impaired" has the meaning given in paragraph 2 of Schedule 1 to the Act;"

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2019

(**4**) 2014 dccc 4.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992 (O.S. 1992/558) ("Gorchymyn 1992").

Nid yw'r dreth gyngor yn daladwy mewn perthynas ag anheddau esempt (adran 4 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14)). Mae dosbarthau o anheddau esempt wedi eu rhagnodi yng Ngorchymyn 1992.

Mae'r Gorchymyn hwn yn mewnosod Dosbarth X newydd yng Ngorchymyn 1992. Mae hyn yn esemptio anheddau yng Nghymru—

- sydd wedi eu meddiannu gan un neu ragor o bobl sy'n ymadael â gofal, a
- lle y mae pob preswyliwr naill ai'n berson sy'n ymadael â gofal, neu'n berson perthnasol o fewn y diffiniad yn Nosbarth N o Orchymyn 1992 (myfyrwyr etc.), neu'n berson sydd â nam meddyliol difrifol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diffinio'r term "care leaver" gan gyfeirio at berson ifanc categori 3, fel y'i diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.